Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu** |
| **Lleoliad:** | **Pencadlys yr Heddlu** |
| **Dyddiad:** | **18 Tachwedd 2015** |
| **Amser:** | **10:00 – 12:15** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (PG)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Dr Helen Morgan-Howard, Pennaeth Staff, SCHTh (HM-H)<br>Mrs Sharon Richards, Rheolwr Perfformiad, SCHTh (SR)<br>Ditectif Brif Arolygydd Dros Dro Steve Davies (SD)<br>Arolygydd Mark McSweeney, Swyddog Staff i'r Prif Gwnstabl (MMS)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) |
| **Ymddiheuriadau:** | Mr Tim Burton, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (DGHTh)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA)<br>Dirprwy Brif Gwnstabl, Carl Langley (DBG)<br>Prif Gwnstabl Cynorthwyol Liane James (PGC)<br>Ms Samantha Gainard, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio (CGC)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) |
| **Arsylwyr:** | Miss Karys Thomas, Swyddog Ymchwilio, SCHTh (KT)<br>Mrs Anne Williams, Swyddog Cymorth, SCHTh (AW)<br>Dau gynghorydd o Gyngor Sir Benfro |

| CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 15/10/2015 | | |
|---|---|---|
| Rhif Cam Gweithredu | Crynodeb | Cynnydd: |
| **PAB 268** | **SR i ystyried data Llywodraeth Cymru mewn perthynas â digwyddiadau traffig y ffyrdd ymhellach, ymhellach, gan gynnwys gwybodaeth ar hyd teithiau** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 269** | **Darparu data mewn perthynas ag unigolion sy'n ymuno â'r cynllun Rheoli Troseddwyr yn Integredig ar ôl 6, 12 a 24 mis ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Mawrth.** | **Ar waith** |
| **PAB 270** | **SCHTh i ystyried opsiynau ar gyfer arolygon gadael ar gyfer graddedigion y cynllun Rheoli Troseddwyr yn Integredig, gan gynnwys rhagolygon am gyflogaeth** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 271** | **PG a'r CHTh i godi materion Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth â Phrif Weithredwr ac Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin** | **Ar waith** |

| | | |
|---|---|---|
| **PAB 272** | **Yr Heddlu i egluro'r categorïau gwarant gwahanol** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 273** | **Yr Heddlu i gadarnhau costau Erlyniadau a Arweinir gan yr Heddlu erbyn diwedd Tachwedd** | **Ar waith** |
| **PAB 274** | **Ailystyried data ynghylch llythyrau sy'n cynnig cyrsiau addysgu ynghylch moduro yng Nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Ionawr** | **Ar waith** |
| **PAB 275** | **SR i anfon camau gweithredu o'r Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys at y CGC ar gyfer eu rhannu yn y Pwyllgor Dysgu'r Gwersi** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 276** | **SCHTh i nodi materion mynediad TG mewn perthynas â'r hwb dioddefwyr a'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus mor fuan â phosibl** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 277** | **PG i unioni mynediad i systemau'r Heddlu ar gyfer yr Hwb Dioddefwyr a'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus fel mater o frys** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 278** | **Ystyried Cyfiawnder Adferol yng nghyfarfod blaenoriaeth 3 nesaf Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu (Ebrill 2016)** | **Ar waith** |
| **PAB 279** | **SCHTh i gynnwys asesiad o ddealltwriaeth y cyhoedd ynghylch sut i adrodd am dwyll a phrofiadau o gael eu diweddaru ynghylch cynnydd achosion twyll yn yr arolwg troseddau busnes y mae SCHTh ar fin ei gynnal** | **Ar waith** |
| **PAB 280** | **Darparu data ynghylch nifer y trwyddedau arfau saethu dros dro a gyhoeddwyd mewn cyfarfod o Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn y dyfodol** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 281** | **CGC i roi dyddiadau cymorthfeydd arfau saethu i'r CHTh erbyn mis Rhagfyr** | **Ar waith** |
| **PAB 282** | **Darparu graffiau mewn perthynas â niferoedd swyddogion a staff ar sail chwarterol** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 283** | **PG i rannu'r cynllun amserlen ar gyfer y cytundeb Gwasanaeth Meddygol Fforensig â'r CHTh erbyn diwedd Tachwedd** | **Ar waith** |
| **PAB 284** | **Yr Heddlu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i SR am y dadansoddiad data perfformiad sy'n cael ei gyflawni** | **Cwblhawyd** |

Agorodd y CHTh y cyfarfod drwy ddiolch i Gyngor Sir Penfro a thîm SCHTh am drefnu gweddarllediad cyntaf o gyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.

**Cofnodion y Bwrdd Atebolrwydd a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2015 a Materion yn Codi**

Ceisiodd y CHTh sicrwydd gan y PG nad oedd HDP mewn sefyllfa adleoli ar hyn o bryd. Cadarnhaodd y PG hyn, gan ddweud na fyddai swyddi'n cael eu hysbysebu'n allanol. Eglurodd y PG y byddai angen i'r Heddlu ddarparu cyfleoedd yn fewnol er mwyn cydymffurfio pe baent yn mynd i mewn i sefyllfa adleoli. Roedd y PG yn disgwyl arweiniad gan y Coleg Plismona mewn perthynas â hysbysebu swyddi swyddogion heddlu.

**Adroddiad Atebolrwydd yr Heddlu ar Flaenoriaeth 4 – Gwella Mynediad i Wasanaethau'r Heddlu**

Cyflwynodd y PG yr adroddiad, gan dynnu sylw at y pwyntiau allweddol. Ystyriodd y PG bod aelodaeth o'r Heddlu Gwirfoddol yn cymharu'n ffafriol â heddluoedd eraill ac roedd yn iach o ystyried nifer y swyddogion a oedd wedi trosglwyddo i swyddi swyddogion cyflogedig. Roedd swyddogion cyflogedig yn cael eu recriwtio ar y gyfradd uchaf ers nifer o flynyddoedd.

Gofynnodd y CHTh am gefndir recriwtiaid. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â'r broses recriwtio ar gyfer Cwnstabliaid Gwirfoddol. Er bod y PG yn ystyried bod HDP mewn sefyllfa dda o ran nifer y recriwtiaid, roedd gwaith yn digwydd ar y cyd â Gogledd Cymru i annog pobl i beidio â thynnu yn ôl adeg y cam recriwtio. Holodd y CHTh pa un ai a oedd cymhellion wedi'u hystyried, megis plismona a gefnogir gan gyflogwyr. Dywedodd y PG bod hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd, yn ogystal ag ymgynghori â recriwtiaid posibl i ddarganfod beth fyddai'n annog eu cysylltiad.

**Cam Gweithredu: Darparu cynllun recriwtio a chadw swyddogion heddlu gwirfoddol, gan gynnwys proffil recriwtio manwl a chymhariaeth â blynyddoedd blaenorol, yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ddiwedd Ionawr**

Ar hyn o bryd, mae 30 SCCH a swyddog heddlu wedi'u hyfforddi fel Swyddogion Cyswllt Gwledig (SCG), sydd wedi ymrwymo i ymgysylltu â chymunedau gwledig. Adroddodd y CHTh ei fod yn ymwybodol bod y Rhingyll Howells yn adnabyddus mewn cymunedau ffermio. Dywedodd y PG mai un o fanteision SCG oedd y gallu i deilwra'r gwasanaeth i gefnogi dioddefwyr trosedd mynych sy'n agored i niwed.

**Cam Gweithredu: Rhingyll Howells i gyfathrebu â SCHTh mewn perthynas â chysylltiad busnesau gwledig yn yr Arolwg Troseddau Busnes**

Cyflwynwyd data perfformiad mewn perthynas â Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu, a ddangosodd gwelliant mewn amserau ymateb a galwadau 999 yn cael eu hateb o fewn 10 eiliad ar gyfartaledd. Tynnodd y PG sylw at y strategaeth gyffredin ar gyfer rheoli ciwiau galwadau yn ystod cyfnodau prysur. Mae Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu'n

defnyddio dau rif, ac os yw'r brif linell a'r llinell wrth gefn yn cael eu defnyddio, cyfeirir galwadau at heddlu arall ar gyfer triniaeth gychwynnol. Dywedodd y PG bod y mater o roi'r gorau i alwadau Cymraeg yn cael ei drin trwy recriwtio siaradwyr Cymraeg ychwanegol i Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu. Roedd yr Heddlu'n disgwyl canlyniadau adolygiad annibynnol o Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu a gomisiynwyd gan SCHTh. Cam olaf yr adolygiad oedd yr arolwg o alwyr, a oedd wedi'i oedi o ganlyniad i gymhlethdodau dros drosglwyddo data galwadau unigol. Adroddwyd bod y DBG/DD a'r DGHTh yn ymgysylltu er mwyn ceisio adfer y sefyllfa. Dywedodd y CHTh y bu newid calonogol mewn amserau ymateb ers mis Gorffennaf, gan holi sut y cyflawnwyd hyn. Gofynnodd am i SCHTh gael mynediad rheolaidd at ddata galwadau 999 a 101. Ystyriodd y PG bod y data a ddarperir yn awr yn darparu darlun mwy cywir o'r hyn a oedd yn digwydd, oherwydd yn y gorffennol, gallai swyddogion fod yn bresennol ond profi peth oedi o ran cofrestru eu statws â'r system reoli. Dywedodd y PG bod y gwelliant i dechnoleg symudol yn annog swyddogion i gofrestru eu presenoldeb mewn digwyddiadau'n gynt, a thrwy'r ymagwedd 'gorchymyn nid gofyn' tuag at leoli swyddogion. Holodd y CHTh ynghylch hyder y PG na fyddai'r amser a gymerir i ateb galwadau'n cynyddu eto. Dywedodd y PG ei fod yn hyderus oherwydd y cynnydd yn nifer y trinwyr galwadau ac anfonwyr, monitro parhaus o ddata a newid yn y modd y mae galwadau'n cael eu blaenoriaethu. Cytunwyd y byddai data trin galwadau Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu'n cael ei adolygu'n fanwl yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu fis Chwefror.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i roi mynediad i SCHTh i ddata trin galwadau 999 ac 101 drwy'r system Qlikview**

**Cam Gweithredu: Adolygu data trin galwadau Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu fis Chwefror**

Nododd y PG bod Swyddogion Cefnogi Cymunedol yn rhoi hyfforddiant cymorth cyntaf i ddisgyblion blwyddyn 5 ar hyn o bryd ar y cyd ag Ambiwlans Sant Ioan. Mae 3000 o blant wedi derbyn yr hyfforddiant yn Sir Gaerfyrddin hyd yn hyn. Roedd y CHTh yn fodlon iawn â'r gwaith hwn. Dywedodd y CHTh ei fod wedi derbyn adborth cadarnhaol yn lleol gan swyddogion a'r cyhoedd mewn perthynas â gweithgarwch y Tîm Plismona Bro. Cafwyd trafodaeth ynghylch alinio blaenoriaethau'r Tîm Plismona Bro a'r gymuned. Dywedodd y PG bod ymagwedd fwy hyblyg yn caniatáu cytuno ar flaenoriaethau mewn amryw o ffyrdd. Cytunodd y CHTh bod hyn yn briodol.

Roedd y Gorsafoedd Heddlu Symudol yn weithredol, gydag adborth cadarnhaol yn cael ei dderbyn trwy'r timoedd plismona bro. Dywedodd y PG bod calendrau lleoli wedi'u poblogi'n dda, ac er mwyn arwyddion cynnar yn gadarnhaol, ni fyddai canlyniadau defnydd ar gael tan y gwerthusiad ddiwedd Rhagfyr.

Diolchodd y CHTh y PG am yr adroddiad, gan ofyn bod mwy o sylw'n cael ei dalu i gyflwyno'r papurau. Yna, gwahoddwyd aelodau o'r cyhoedd i holi cwestiynau. Ceisiodd Cynghorydd lleol sicrwydd bod porthladdoedd fferi'n cael eu monitro'n ddigonol mewn ymateb i'r ymosodiadau terfysgol diweddar ym Mharis. Dywedodd y PG mai'r lefel diogelwch cenedlaethol oedd 'difrifol', a hynny ers cryn amser, ac y byddai presenoldeb

heddlu yn y porthladdoedd yn cael ei gynnal cyn hired â phosibl. Anogodd y cyhoedd i fod yn wyliadwrus ond i beidio â bod ofn, a riportio unrhyw weithgarwch amheus i'r heddlu. Dywedodd cynghorydd lleol arall bod presenoldeb yr heddlu yn Noc Penfro'n cael ei werthfawrogi; fodd bynnag, codwyd cwestiynau ynghylch recordio a monitro teledu cylch cyfyng yn yr ardal. Dywedodd y CHTh mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol a chynghorau tref yw teledu cylch cyfyng, ac roedd e'n barod i drafod y mater ar ôl y cyfarfod.

**Adroddiad Atebolrwydd SCHTh ar Flaenoriaeth 4**

Cyflwynodd y CHTh y papur, gan nodi bod y rhaglen ystadau sy'n manylu cynllun buddsoddi 10 mlynedd i ail-lunio ystâd HDP yn mynd rhagddo'n dda. Dywedodd y CHTh bod HDP wedi ymuno â'r Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol. Rhoddodd y CHTh drosolwg byr o weithgarwch ymgysylltu cyhoeddus diweddar.

**Adroddiad Monitro Perfformiad SCHTh**

Rhoddodd SR drosolwg o ardaloedd y canolbwyntir arnynt o fewn yr adroddiad, sef adroddiad effeithlonrwydd AHEM, dadansoddi galw, cymorth gwirfoddolwyr a chostau swyddogion a staff. Atebwyd cwestiynau o fewn yr adroddiad a byddant yn cael eu cyhoeddi o fewn yr adroddiad a'u diweddaru ar wefan y Comisiynydd.

Cafwyd trafodaeth ynghylch recriwtio Cwnstabliaid Gwirfoddol, gyda'r PG yn tynnu sylw at y broses eang yr ystyriai oedd yn effeithio ar gadw yn ystod y camau recriwtio. Cytunwyd y byddai'r Heddlu'n darparu adroddiad mwy manwl ar yr effaith yr oedd y broses recriwtio'n cael ar gadw recriwtiaid.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i adrodd ar effaith y broses recriwtio Cwnstabliaid Gwirfoddol genedlaethol ar gyfraddau cadw**

**Proffil Problemus Cam-drin Domestig**

Yn dilyn egwyl fer, cytunwyd y byddai'r prif gwestiynau sy'n codi o'r Proffil Problemus Cam-drin Domestig yn cael eu trafod yn y cyfarfod cyhoeddus; fodd bynnag, ni ellir rhannu'r ddogfen yn gyhoeddus er mwyn diogelu rhag adnabod unigolion. Mynegodd y CHTh ei ddiolch i'r PG ei fod e'n barod i drafod yr adroddiad yn gyhoeddus, gan gydnabod y gofal sydd angen o ran gwybodaeth sensitif.

Esboniodd y Ditectif Brif Arolygydd Dros Dro Steve Davies mai adroddiad ffeithiol ydoedd a ddefnyddiwyd i hysbysu penderfyniadau gweithredol. Roedd 3,700 digwyddiad cam-drin domestig wedi'u riportio i HDP yn y flwyddyn ddiwethaf, sy'n gynnydd ar

flynyddoedd blaenorol. Credwyd bod hyn yn ymwneud â gwell ymwybyddiaeth a mwy o hyder i riportio. Roedd cyfeiriadau i'r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) wedi dyblu ers 2012, a disgwylir y byddai'r galw ar yr heddlu yn y dyfodol yn cynyddu wrth fewnosod y newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth. Nododd yr adroddiad bod nifer o'r digwyddiadau cam-drin domestig yn gysylltiedig â cham-drin alcohol. Daeth i'r amlwg bod 41% o droseddwyr wedi'u cyhuddo, fodd bynnag, ystyriwyd y gellir gwella'r broses o ddiweddaru dioddefwyr. Ar hyn o bryd, mae galwadau cynhadledd Trais Domestig yn cael eu cynnal 3 gwaith yr wythnos. Prawf yw hyn a fydd yn cael ei adolygu yn gynnar yn 2016. Byddai Sir Gaerfyrddin yn treialu prosiect ymwybyddiaeth cam-drin domestig pobl hŷn o Ebrill 2016.

Gofynnodd y CHTh pam oedd Sir Benfro'n cofnodi'r nifer mwyaf o ddigwyddiadau fesul pen o'r boblogaeth. Dywedodd SD y gall hyn fod o ganlyniad i'r nifer uwch o drefi mawr, ond nid oedd hi'n medru rhoi tystiolaeth dros brif reswm. Ystyriodd y PG nad oedd hyn yn ymwneud â'r Heddlu'n ymgymryd ag unrhyw agweddau gwahanol yn Sir Benfro i weddill yr Heddlu, ond awgrymodd bod ardaloedd gwledig yn llai tebygol o riportio digwyddiadau o'r natur hwn. Nodwyd bod HDP a Gogledd Swydd Efrog yn ymgymryd â Phroffil Problemus Cam-drin Domestig ar gyfer ardaloedd gwledig.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â Gorchmynion Amddiffyn Rhag Trais Domestig (DVPO). Gofynnodd y CHTh pa un ai a oedd y rhain yn gymhleth i'w defnyddio oherwydd ychydig iawn oedd wedi'u cyhoeddi. Awgrymodd SD nad oeddent yn arbennig o anodd, a bod gwell ymwybyddiaeth wedi arwain at geisiadau DVPO yn cael eu paratoi tra bod drwgdybiedigion yn y ddalfa fel rhan o'r broses llys.

Roedd y CHTh yn synnu bod y rhan fwyaf o droseddwyr mynych mewn perthnasau sefydledig. Trafodwyd y mater ymhellach, gydag aelodau'n ystyried rhaglenni cymorth megis Ymgynghorwyr Cam-drin Domestig Annibynnol yn ymddangos fel ymagwedd fwy addas na'r llwybr cyfiawnder troseddol oherwydd nid oedd dioddefwyr bob tro'n barod i symud achosion ymlaen gyda'r heddlu. Dywedodd y PG bod dioddefwyr yn fwy tebygol o riportio cam-drin mynych yn ystadegol, gyda Chymorth i Fenywod yn awgrymu y bydd dioddefwyr yn dioddef 35 digwyddiad ar gyfartaledd cyn riportio unrhyw beth i'r heddlu.

Cododd y CHTh y mater o anawsterau tystiolaethol o ran symud achosion ymlaen. Dywedodd SD bod y Coleg Plismona wedi cynhyrchu rhestr wirio i dargedu ffynonellau tystiolaethol allweddol a hyrwyddodd bod swyddogion yn meddwl am y treial ar adeg ymateb i ddigwyddiadau. Daeth i'r amlwg bod ymgysylltiad cychwynnol ond tynnu yn ôl wedi hynny yn achos cyffredin o anhawster tystiolaethol o ran dwyn achos i gyfiawnder yn HDP. Dywedodd SD bod gwaith dadansoddi'n digwydd er mwyn ystyried y rheswm dros euogfarnau'n methu. Gofynnodd y CHTh am i SCHTh gael ei chynnwys yn y gwaith hwn.

**Cam Gweithredu: Y Prif Arolygydd Steve Davies i gyfathrebu â Karys Thomas ynghylch proffil o anawsterau tystiolaethol o ran mynd ag achosion cam-drin domestig i'r llys**

Ceisiodd y CHTh eglurder o ran y categorïau cefnogaeth a gynigir i ddioddefwyr. Dywedodd SD bod achosion risg uchel yn cael cynnig cymorth YTDA am 6 wythnos, a strategaeth ymadael yn dilyn hyn sy'n cynnwys cymorth yn ôl yr angen gan sefydliadau eraill, gydag achosion canolig a safonol yn cael cyfle i gael eu cyfeirio at Gymorth i Fenywod a sefydliadau cymorth eraill. Byddai tri digwyddiad risg canolig neu safonol o fewn 12 mis yn arwain at gyfeiriad ar y MARAC am gymorth ychwanegol. Oherwydd cyfyngiadau o ran adnoddau, nid oedd trosglwyddo achosion yn systematig yn digwydd ar gyfer achosion risg is fel yr oedd mewn achosion risg uwch, fodd bynnag, roedd y Cwtsh Cymorth, a leolir ym Mhencadlys yr Heddlu, yn cynnig cymorth ychwanegol.

Trafodwyd amseroldeb achosion yn cael eu cymryd i'r llys, gyda SD yn egluro bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn pennu cyflymder dilyniant achosion, sydd weithiau'n medru cymryd misoedd. Ystyriodd y PG mai'r broblem fwyaf yw dioddefydd yn tynnu yn ôl neu'n methu ag ymddangos yn y llys. Gall prydlondeb a mynediad at lys effeithio ymhellach ar hyn. Rhannodd y CHTh ei bryder dros fynediad at lysoedd lleol.

Doedd dim cwestiynau o gofnodion y Grŵp Prif Swyddogion ac ni chododd unrhyw fusnes arall.

Mynegodd y CHTh ei ddiolch ymhellach i dîm SCHTh a Chyngor Sir Penfro am drefnu'r cyfarfod, ac i'r PG a'i dîm am eu presenoldeb.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 18/11/2015 | | |
|---|---|---|
| Rhif cam gweithredu | Crynodeb | I'w symud yn ei flaen gan |
| **PAB 285** | **Darparu cynllun recriwtio a chadw swyddogion heddlu gwirfoddol, gan gynnwys proffil recriwtio manwl a chymhariaeth â blynyddoedd blaenorol, yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ddiwedd Ionawr** | **MMS** |
| **PAB 286** | **Rhingyll Howells i gyfathrebu â SCHTh mewn perthynas â chysylltiad busnesau gwledig yn yr Arolwg Troseddau Busnes** | **MH** |
| **PAB 287** | **Yr Heddlu i roi mynediad i SCHTh i ddata trin galwadau 999 ac 101 drwy'r system Qlikview** | **MMS** |
| **PAB 288** | **Adolygu data trin galwadau Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu fis Chwefror** | **HM-H / MMS** |
| **PAB 289** | **Yr Heddlu i adrodd ar effaith y broses recriwtio Cwnstabliaid Gwirfoddol genedlaethol ar gyfraddau cadw** | **MMS** |
| **PAB 290** | **Y Prif Arolygydd Steve Davies i gyfathrebu â Karys Thomas ynghylch proffil o anawsterau tystiolaethol o ran mynd ag achosion cam-drin domestig i'r llys** | **SD / KT** |